**PWYLLGOR CABINET CYNGOR RHONDDA CYNON TAF**
**PWYLLGOR CYNLLUNIO A DATBLYGU**

Cofnodion o gyfarfod hybrid y Pwyllgor Cynllunio a Datblygu a gynhaliwyd Dydd Iau, 7 Medi 2023 am 3.00 pm

Cafodd y cyfarfod yma ei ddarlledu'n fyw, ac mae modd gweld y manylion yma

**Y Cynghorwyr Bwrdeistref Sirol - Pwyllgor Cynllunio a Datblygu Aelodau oedd yn bresennol: -**

Y Cynghorydd S Rees (Cadeirydd)

Y Cynghorydd W Lewis
Y Cynghorydd L A Tomkinson
Y Cynghorydd S Emanuel
Y Cynghorydd G Hughes
Y Cynghorydd J Smith
Y Cynghorydd R Williams

**Roedd y Aelodau Pwyllgor Cynllunio a Datblygu canlynol yn bresennol ar-lein:-**

Y Cynghorydd A Dennis
Y Cynghorydd D Grehan
Y Cynghorydd M Powell
Y Cynghorydd J Bonetto

**Swyddogion oedd yn bresennol: -**

Mr J Bailey, Pennaeth Cynllunio
Mr S Humphreys, Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol
Mr A Rees, Uwch Beiriannydd

**Y Cynghorwyr Bwrdeistref Sirol eraill oedd yn bresennol: -**

Y Cynghorydd M Norris

## 83 DATGAN BUDDIANT

Yn unol â Chod Ymddygiad y Cyngor, ni wnaethpwyd unrhyw ddatganiadau mewn perthynas â'r agenda.

## 84 DEDDF HAWLIAU DYNOL 1998 A PHENDERFYNIADAU RHEOLI DATBLYGU

**PENDERFYNWYD** nodi y dylai Aelodau o'r Pwyllgor, wrth benderfynu ar faterion rheoli datblygu ger eu bron, roi sylw i'r Cynllun Datblygu ac, i'r graddau y bo hynny yn berthnasol, i unrhyw ystyriaethau perthnasol eraill. Rhaid i Aelodau, wrth ddod i benderfyniadau, sicrhau nad ydyn nhw'n gweithredu mewn modd sy'n anghyson â'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol fel y'i hymgorfforwyd mewn deddfwriaeth gan Ddeddf Hawliau Dynol 1998.

**85 DEDDF LLESIANT CENEDLAETHAU'R DYFODOL (CYMRU) 2015**

**PENDERFYNWYD** nodi bod Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn gosod dyletswydd ar gyrff cyhoeddus i gynnal datblygiadau cynaliadwy yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy, ac i weithredu mewn modd sy'n anelu at sicrhau y caiff anghenion y presennol eu diwallu heb amharu ar allu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion nhw.

**86 COFNODION 03.08.23**

**PENDERFYNWYD** cadarnhau'r cofnodion o gyfarfod y Pwyllgor Cynllunio a Datblygu a gynhaliwyd ar 03.08.23 yn rhai cywir.

**87 NEWID I DREFN YR AGENDA**

Cytunodd y Pwyllgor y byddai'r agenda yn cael ei hystyried mewn trefn wahanol yn unol â'r manylion yn y cofnodion isod.

**88 CAIS RHIF: 23/0294**

**Israniad, estyniad, newidiadau allanol i'r uned fanwerthu er mwyn iddi fod yn siop fwyd ac yn uned fanwerthu nwyddau nad ydyn nhw'n fwydydd gyda chaffi, newidiadau i'r ganolfan arddio, trefniadau mynediad i gerbydau cludo nwyddau, cynllun parcio, gwaith tirlunio a gwaith cysylltiedig arall ar y safle. WHAT STORES, YSTAD DDIWYDIANNOL PARC ABERAMAN, ABERAMAN, ABERDÂR, CF44 6DA**

Yn unol â'r gweithdrefnau a gafodd eu mabwysiadu, derbyniodd y Pwyllgor y siaradwyr cyhoeddus canlynol a gafodd bum munud **yr un** i annerch yr Aelodau ynglŷn â'r cynnig uchod:

- Mr Rob Jones (Ymgeisydd)
- Mr Rob Mitchell (Gwrthwynebydd)

Arferodd yr Ymgeisydd, Mr Rob Jones, yr hawl i ymateb i sylwadau'r gwrthwynebydd.

Amlinellodd y Pennaeth Materion Cynllunio gynnwys llythyr 'hwyr' a dderbyniwyd yn gwrthwynebu'r cais.

Cyflwynodd y Pennaeth Materion Cynllunio y cais i'r Pwyllgor. Ar ôl trafod y cais, **PENDERFYNWYD** cymeradwyo'r cais yn unol ag argymhelliad Cyfarwyddwr y Gwasanaeth Materion Ffyniant a Datblygu ar amod ychwanegol sy'n gofyn am fesurau ar gyfer gwelliannau ecolegol.

**89 CAIS RHIF: 23/0165**

**Cadw garej/gweithdy ar wahân. 87 HEOL COED ISAF, MAES-Y-COED, PONTYPRIDD, CF37 1EN**

Cyflwynodd y Pennaeth Materion Cynllunio'r cais i'r Pwyllgor. Ar ôl trafod y cais, **PENDERFYNWYD** cymeradwyo'r cais yn unol ag argymhelliad y Cyfarwyddwr Materion Ffyniant a Datblygu.

**90 CAIS RHIF: 23/0368**

**Newid defnydd o ystafell achlysuron i 4 ystafell gwely a brecwast. TAFARNDY THE PLOUGH INN, STRYD LEWIS, ABERAMAN, ABERDÂR, CF44 6PY**

Amlinellodd y Pennaeth Materion Cynllunio gynnwys llythyr 'hwyr' a dderbyniwyd oddi wrth yr ymgeisydd yn nodi'r rhesymau dros y datblygiad arfaethedig.

Cyflwynodd y Pennaeth Materion Cynllunio'r cais i'r Pwyllgor. Ar ôl trafod y cais, **PENDERFYNWYD** cymeradwyo'r cais yn unol ag argymhelliad y Cyfarwyddwr Materion Ffyniant a Datblygu.

**91 CAIS RHIF: 23/0576**

**Ailgyflwyno cynnig i newid defnydd yn rhannol yn 22-22A Stryd Caerdydd i greu 7 fflat newydd a chadw'r uned breswyl ar yr ail lawr, yn ogystal â gwaith gwella'r mannau masnachol ar yr islawr ac ar y llawr gwaelod. 22-22A STRYD CAERDYDD, ABERDÂR, CF44 7DP**

(**Nodwch:** Ar y pwynt yma, gadawodd Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol D Grehan y cyfarfod.)

Cyflwynodd y Pennaeth Materion Cynllunio'r cais i'r Pwyllgor ac ar ôl ei ystyried **PENDERFYNWYD** gohirio penderfynu ar y cais tan gyfarfod y Pwyllgor Cynllunio a Datblygu yn y dyfodol er mwyn ystyried y newidiadau arfaethedig ymhellach i ddatrys y gwrthwynebiadau blaenorol ac i drafod gyda'r ymgeisydd.

(**Nodwch:** Ar yr adeg yma yn y cyfarfod gadawodd Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol W Lewis.)

**92 CAIS RHIF: 23/0910**

**Gosod arwydd pren ar y gwair ger prif fynedfa'r parc. PARC COFFA YNYSANGHARAD, STRYD Y BONT, PONTYPRIDD**

Cyflwynodd y Pennaeth Materion Cynllunio'r cais i'r Pwyllgor. Ar ôl trafod y cais, **PENDERFYNWYD** cymeradwyo'r cais yn unol ag argymhelliad y Cyfarwyddwr Materion Ffyniant a Datblygu.

**93 CAIS RHIF: 22/1321**

**Newid defnydd tŷ preswyl i fod yn gartref i blant (C2). 41 Heol y Coed, Trefforest, Pontypridd, CF37 1RH**

Cyflwynodd y Pennaeth Materion Cynllunio'r cais, a gafodd ei gyflwyno'n

wreiddiol i'r Pwyllgor ar 17 Awst 2023, pan wrthododd yr Aelodau'r cais yn groes i argymhelliad y Cyfarwyddwr Gwasanaeth Materion Ffyniant a Datblygu (gweler Cofnod 76).

Trafododd yr Aelodau'r adroddiad pellach, a oedd yn tynnu sylw at gryfderau a gwendidau posibl cymeradwyo'r cais yn groes i argymhelliad Swyddogion. Yn dilyn trafodaeth, **PENDERFYNWYD** gwrthod y cais, a hynny'n groes i argymhelliad y Cyfarwyddwr Gwasanaeth Materion Ffyniant a Datblygu, am y rhesymau a nodwyd yn yr adroddiad pellach ac yn amodol ar ddiwygio'r cyfeiriad at 'Gynllun Datblygu Lleol' i'r canlynol: 'Cynllun Datblygu Lleol Rhondda Cynon Taf (CDLlRhCT)'.

**94 CAIS RHIF: 23/0398**

**Newid defnydd o dŷ amlfeddiannaeth (defnydd C4) i gartref i blant a gwaith cysylltiedig. (Cynllun Lleoliad Safle Diwygiedig wedi dod i law ar 08/06/2023) 37 Stryd Elisabeth, Aberdâr, CF44 7LN**

Cyflwynodd y Pennaeth Materion Cynllunio'r cais, a gafodd ei gyflwyno'n wreiddiol i'r Pwyllgor ar 17 Awst 2023, pan wrthododd yr Aelodau'r cais yn groes i argymhelliad y Cyfarwyddwr Gwasanaeth Materion Ffyniant a Datblygu (gweler Cofnod 73).

Trafododd yr Aelodau'r adroddiad pellach, a oedd yn tynnu sylw at gryfderau a gwendidau posibl cymeradwyo'r cais yn groes i argymhelliad Swyddogion. Yn dilyn trafodaeth, **PENDERFYNWYD** gwrthod y cais, a hynny'n groes i argymhelliad y Cyfarwyddwr Gwasanaeth Materion Ffyniant a Datblygu, am y rhesymau a nodwyd yn yr adroddiad pellach ac yn amodol ar ddiwygio'r cyfeiriad at 'Gynllun Datblygu Lleol' i'r canlynol: 'Cynllun Datblygu Lleol Rhondda Cynon Taf (CDLlRhCT)'.

**95 GWYBODAETH I AELODAU SY'N YMWNEUD Â'R CAMAU GWEITHREDU WEDI'U CYMRYD O DAN BWERAU DIRPRWYEDIG**

**PENDERFYNODD** yr Aelodau dderbyn adroddiad y Cyfarwyddwr y Gwasanaeth Materion Cynllunio mewn perthynas â'r Penderfyniadau Apeliadau Cynllunio a Gorfodi a ddaeth i law, Cymeradwyaethau Penderfyniadau a Gwrthodiadau Dirprwyedig gyda rhesymau, Trosolwg o Achosion Gorfodi a Phenderfyniadau Gorfodi Dirprwyedig ar gyfer y cyfnod 07/08/2023 – 25/08/2023.

**Daeth y cyfarfod i ben am 4.10 pm**

**Y Cynghorydd S Rees**
**Cadeirydd.**